

**Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 15 yn gynwysedig.**

**Cofnodir rhan o gofnod 8 ar wahân o dan Fusnes Cyfrinachol.**

### **1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau**

Yn bresennol: John Graystone (yn y Gadair – heblaw am ran o gofnod 3), Chris Franks, June Jeremy, Guy Wallace Smith, Heather Willbourn, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd – yn absennol ar gyfer rhan o gofnod 3), Cathy Clark, Caroline Davies, Toni Schiavone (Is-gadeirydd – yn absennol ar gyfer rhan o gofnod 3), Iwan Hywel, Nick Taylor, Dafydd Rhys. Roedd gan y cyfarfod gworwm drwy gydol yr amser.

Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm ac Adnoddau), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau Dynol), Stephen Thomas (Ysgrifennydd a Chlerc y Cwmni), Jan Tiley (Cynrychiolydd Unite the Union – heblaw am gofnod 6); Steffan Wiliam a Catrin Parri (cyfieithwyr ar y pryd – yn rhannu'r cyfrifoldeb).

Ymddiheuriadau: Julie Cook, David Elis-Williams, Gayle Hudson, Gerry Jenson.

### **2. Materion Rhagarweiniol a Diweddariadau i'w Nodi**

Cyflwynwyd Jan Tiley i bawb a gwnaed cyflwyniadau byr o gwmpas y bwrdd. Cyhoeddwyd bod Kaitlin Crisp a Marjorie Williams wedi camu i lawr o'u rolau'n Aelodau o'r Cyngor ers y cyfarfod diwethaf ac y byddai etholiadau'n cael eu cynnal ar gyfer dau ddysgwr-lywodraethwr yn eu lle. Y bore hwnnw, roedd y Cadeirydd a'r ddau Is-gadeirydd wedi cynnal cyfarfod adolygu a diwedd cyfnod prawf 6 mis gyda Kathryn Robson, ac roedd y Cadeirydd yn falch o gyhoeddi bod Kathryn wedi cwblhau ei chyfnod prawf yn llwyddiannus.

### **3. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeiryddion**

Gadawodd John Graystone, yr unig enwebai ar gyfer rôl y Cadeirydd, yr ystafell ac ymgwymerodd Stephen Thomas â dyletswyddau'r Cadeirydd ar gyfer yr etholiad hwnnw. Cadarnhaodd fod y rôl yn cael ei hadnewyddu'n flynyddol ac er bod enwebiadau posibl eraill wedi'u crybwyll, ni chadarnhawyd yr un ohonynt iddo erbyn y dyddiad cau. Nid oedd sylwadau, felly **cymeradwywyd yr unig enwebai yn unfrydol**. Dychwelodd **John Graystone** i gadeirio gweddill y cyfarfod, gan ddiolch i aelodau'r Cyngor am eu cefnogaeth barhaus.

Y 2 enwebiad ar gyfer dwy rôl yr Is-gadeirydd oedd deiliaid presennol y rolau hynny, sef Sonia Reynolds a Toni Schiavone, a gadawsant yr ystafell ar gyfer y mater hwn. Cadarnhaodd y Clerc eu bod wedi'u henwebu'n briodol, ar adegau gwahanol gan bobl wahanol, ac y byddai eu rolau hwythau am flwyddyn yr un hefyd. **Fe'u cymeradwywyd yn unfrydol i ymgymryd â'r rôl ar y cyd**, gan ailymuno â'r cyfarfod i sain llongyfarchiadau.

#### **4. Materion gweithdrefnol yn ymwneud ag aelodaeth y Cyngor, y Llywyddiaeth a chyfarfodydd y Cyngor**

Roedd ffurflenni datgan (gwrthdaro buddiannau) adnewyddedig ar gyfer aelodau'r Cyngor wedi'u dosbarthu gyda'r papurau a manteisiodd rhai aelodau ar y cyfarfod i'w llenwi a'u cyflwyno. O ran dosbarthiad tymhorau aelodau'r Cyngor yn eu swydd (gyda rhai'n dod i ben ym Mawrth 2019 ac eraill ym Mawrth 2020), esboniodd y Clerc fod angen cadarnhau tymhorau tri aelod presennol. Cynigiodd y dylai'r tri thymor hyn orffen ym mis Mawrth 2020, gan fod yr aelodau hyn, mewn dau achos, wedi dechrau ar eu cyfnod mewn swydd ar ôl mis Mawrth 2017 ac y bu rhywfaint o drosiant eisoes yn aelodaeth y Cyngor yn ystod ei flwyddyn gyntaf ar waith. Cafwyd trafodaeth am faterion tegwch a dehongliad cyfansoddiadol. Nid oedd Caroline Davies o'r farn bod dwy flynedd o wasanaeth hyd at fis Mawrth 2019 yn ddigon o amser iddi hi fod yn gwbl wybodus am bob mater sefydliadol, yn enwedig gan ei bod hi bellach yn is-gadeirydd Pwyllgor; hefyd, roedd hi o'r farn ei bod hi'n fwy heriol i lywodraethwr etholedig geisio tymor pellach nag yr oedd i lywodraethwyr penodedig (er y cadarnhawyd y byddai angen i lywodraethwyr penodedig gwblhau proses ymgeisio/gyfsweld hefyd, petaent yn ceisio tymor pellach). **Cytunwyd y byddai'r Clerc yn edrych ar y mater eto o safbwynt cyfansoddiadol. Yn y cyfamser, cymeradwywyd y cynnig, gyda 9 pleidlais o blaid ac 1 bleidlais wedi'i hatal, sef bod Julie Cook, Iwan Hywel a Guy Wallace Smith yn aros yn eu swydd tan ddiwedd mis Mawrth 2020.**

Trafodwyd yr opsiwn cyfansoddiadol o greu rôl llywydd anrhydeddus ac is-lywyddion anrhydeddus (hyd at 5 ohonynt) – opsiwn nas defnyddiwyd ers i'r Athro Teresa Rees fod yn Llywydd ar Gymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru dros bedair blynedd ynghynt. **Cytunwyd y dylid paratoi cylch gwaith/cynllun gwaith a swydd-ddisgrifiad ysgrifenedig ar gyfer y rôl**, ac na ddylid ei rhoi i aelod presennol o'r Cyngor na gwleidydd gweithredol – er y dylai fod yn unigolyn â dylanwad i eirioli ar ein rhan, ni fyddai gogwydd gwleidyddol ganddo, yn ddelfrydol. **Cytunwyd y dylid codi'r mater gyda'n haelodau ehangach, gan ofyn iddynt gynnig enwau**, ac y gallai fod angen rhyw fath o gymeradwyaeth yr aelodaeth ar gyfer y penodiad. **Cytunwyd y byddai'r swyddogion a'r Clerc yn cyflwyno cynigion manylach ynghylch y mater i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf**. Ni fu trafodaeth ar greu is-lywyddion.

Yn dilyn trafodaeth am ostyngiad posibl yn nifer cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018-19, **cytunwyd y dylai'r sefyllfa sydd ohoni barhau - 6 cyfarfod yn cael eu cynnal, gyda phatrwm o gyfarfodydd bob dau fis**.

#### **5. Adborth a materion yn codi o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yng Nghastell-nedd ar 14 Ebrill 2018**

Dywedodd y rhai a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) iddo fod yn ddigwyddiad llwyddiannus ar y cyfan, ar amryw lefel. Serch hynny, cododd y Cadeirydd ychydig bwyntiau a gofyn am farn aelodau'r Cyngor amdanynt. Y cyntaf oedd p'un a ddylai'r Cyngor ystyried sefydlu hawl iddo wrthod cynigion yr oedd yn eu hystyried yn rhy weithredol eu natur: ni chafwyd ymateb ynghylch y mater hwn. Fodd bynnag, cafwyd trafodaeth ar bleidleisio trwy ddirprwy, gydag amrywiol ddadleuon o'i blaid ac yn ei erbyn. Roedd y rhain yn cynnwys darparu lefelau uwch o gyfranogiad gan aelodau; manteision bod yn bresennol i glywed dadleuon a fynegir yn ystod trafodaethau ar gynigion; manteision ac anfanteision pleidleisio electronig, anhysbys mewn CCB (ni chyflwynwyd hyn yng Nghastell-nedd, er bod y dechnoleg yn bodoli yn y sefydliad); anhawster pleidleisio yn gyhoeddus ar faterion penodol gan staff, a deimlai fod natur anhysbys pleidleisio trwy ddirprwy yn well felly; a derbynioldeb cyfansoddiadol a'r posibilrwydd ymarferol cynyddol o ymestyn y gallu i aelodau gymryd rhan mewn Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol trwy dechnoleg ar-lein/fideo.

Ni wnaed unrhyw bwyntiau pendant am yr angen i newid yr Erthyglau a'r Rheolau Sefydlog ar y materion hyn. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth gyffredinol i awgrym June Jeremy fod cynigwyr (a

gwrthwynebwyd?) cynigion yn cael cyfleoedd i gyflwyno'u dadleuon ar-lein/ar ein gwefan cyn CCB, a bod yr holl aelodau'n cael eu cyfeirio at hynny cyn cael eu hannog i fynychu neu bleidleisio trwy ddirprwy; ac i ystyried pwynt Caroline Davies – sef y dylid cynnal y CCB yn gynharach yn y flwyddyn, fel nad oedd yn cyd-daro â gwyliau'r Pasg, gyda'r potensial felly o gynyddu'r nifer yn mynychu. (Nodwyd bod y ffaith bod cynigion y CCB yn cael eu trafod yn ystod cylch Fforymau Rhanbarthol y gwanwyn yn golygu bod y materion a godwyd ganddynt yn cael eu gwyntyllu ymhlith nifer fwy o lawer na dim ond y rhai yn bresennol ar y diwrnod.)

## **6. Cofnodion y Busnes Cyfrinachol yng nghyfarfod y Cyngor ar 23 Mawrth 2018 a materion yn codi nad oeddent ar yr agenda**

Cafodd cofnodion Busnes Cyfrinachol y cyfarfod ar 23 Mawrth 2018 ym Mangor eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd yr un mater a oedd yn codi yn ymwneud â'r cynnig y dylid ystyried amlinellu sut y byddai'r Cyngor yn ymdrin â materion brys, y tu allan i'w gyfarfodydd a rhwng ei gyfarfodydd, yn ffurfiol yn y cyfansoddiad. Dosbarthodd y Clerc ddogfen yn cynnwys y cymalau allweddol o'r Erthyglau Cymdeithasu yn ymdrin â hyn a materion cysylltiedig ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd dau bwynt o egwyddor yn gryf gan y rhai a oedd yn bresennol: y Cyngor llawn ddylai fod yn gorff penderfynu, lle bynnag y bo'n bosibl; ac y byddai cyfeiriad pellach at y swyddogion (y Cadeirydd a'r Is-gadeiryddion) mewn ystyr ffurfiol, ysgrifenedig, mewn perygl o roi'r argraff bod 'bwrdd gweithredol' yn cael ei greu, y dylid ei osgoi ar bob cyfrif. **Felly, cytunwyd y dylai'r hyblygrwydd a roddir gan eiriad presennol y cyfansoddiad, yn caniatáu am roi'r awdurdod i'r swyddogion pan fyddai amgylchiadau eithriadol yn gofyn am hynny ond hefyd yn galluogi grwpiau eraill o aelodau'r Cyngor i gael pwerau dirprwyedig tebyg, barhau.**

## **7. Cofnodion y Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 23 Mawrth 2018 a materion yn codi nad oeddent ar yr agenda**

Cafodd cofnodion Busnes Agored y cyfarfod ym Mangor ar 23 Mawrth 2018 eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Codwyd dau fater sy'n codi/Pwynt Gweithredu. Byddai'r Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu yn cyflwyno adroddiad ar ei gynigion i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf (cofnod 4). Ac roedd y **Bwletin** newyddion cyntaf fel rhan o'r ymrwymiad i adrodd bob dau fis ar faterion yn gysylltiedig â'r Cyngor (cofnod 4) wedi ymddangos gyda sêl bendith y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd.

## **8. Adroddiad Cryno'r Prif Weithredwr ar gyfer mis Mai 2018 (rhan)**

Ymddiheurodd Kathryn Robson am ddiffyg adroddiad ysgrifenedig ar yr achlysur hwn, oherwydd datblygiadau cyflym diweddar ynghylch safle Harlech. Cyflwynwyd cyfres o ffotograffau a dynnwyd yr wythnos flaenorol, yn dangos cyflwr mewnol adeilad Wern Fawr, oedd yn dirywio'n gyflym, er gwybodaeth aelodau'r Cyngor. O safbwynt diogelwch, roedd peipiau glaw plwm wedi'u dwyn (gosodwyd gorchuddion o amgylch y gweddill ers hynny) ac roedd rhwyllau diogelwch wedi'u gosod ar yr holl fynedfeydd a ffenestri ar y llawr gwaelod i ddiogelu'r adeilad rhag tresbasu pellach. Roedd haen orchuddiol wedi'i gosod ar rai toeau gwastad i atal rhagor o ddŵr rhag mynd i mewn iddynt, ond fel yr oedd y lluniau ac adolygiad diweddar o iechyd a diogelwch yn ei ddangos, roedd problem sylweddol a chynyddol o ran cynnal Wern Fawr mewn cyflwr derbyniol fel adeilad gwag. Ac eto, roedd angen ystyried cydbwysedd rhwng costau a chyfrifoldebau cynnal a chadw'r sefydliad: roedd trafodaeth â CADW wedi dangos ei fod yn barod i fod yn rhesymol ei ddisgwyliadau o ran yr ymdrechion a wneir. Mewn datblygiad arall, roedd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn mynd i wneud cofnod o Wern Fawr ac adeilad y theatr yn ystod yr wythnosau nesaf, gan ddefnyddio technoleg drôn. Dylai murluniau pwysig Robert Baker gael sylw arbennig ym mhob amserlen cynnal a chadw.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, amddiffyn y llyfrgell a'i chasgliad oedd blaenoriaeth bennaf Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. Cyflwynwyd dau bapur ynglŷn â hyn – un gan Lyfrgellydd Cenedlaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a'r llall yn llythyr gan gyfreithiwr ynghylch y sefyllfa o ran cymynrodd Tudor Gwesyn Bowen-Jones. Croesawyd cynnig cydweithio'r Llyfrgell Genedlaethol, gan y byddai'n trosglwyddo cyfrifoldeb am y rhannau pwysicaf o'r casgliad a chreu 'archif gorfforaethol' i'r Llyfrgell. Teimlwyd na ddylai cost y prosiect, sef £50,000, a grybwyllwyd fel ein cyfraniad ni at waith y Llyfrgell Genedlaethol, ddod o'r gymynrodd (roedd y tu hwnt i amodau'r gymynrodd) ac ystyriwyd ei fod yn gywir fel 'cyfraniad moesol' ar ein rhan at waith catalogio, dosbarthu dan reolaeth, gwerthu ac aildosbarthu/cadw casgliad y llyfrgell – dodrefn yn ogystal â deunydd darllen. Gellid ystyried hefyd gyfrannu arian o werthiant posibl y safle tuag at y gost honno.

Byddai Theatr Ardudwy wedi mynd a'i holl eiddo o'r safle erbyn yr wythnos gyntaf ym mis Mehefin. Roedd y Cyngor eisoes wedi cytuno mewn egwyddor i ildio'r brydles gyda nhw yn gynnwys, ac roedd syrfëwr bellach yn cael ei gyflogi i gytuno ar ffi brisio ar gyfer yr agwedd benodol honno, gyda'r posibilrwydd o daliad cydnabyddiaeth ar ben hynny pe bai Pwyllgor Llywio Harlech yn gwneud argymhelliad o'r fath.

#### **Cytunodd y Cyngor ar y canlynol o safbwynt eiddo a thir Harlech yn ei gyfanrwydd:**

- i) **Penodi syrfëwr i ddechrau prosesau cyn gwaredu'r safle a chael prisiadau, yn unol â rheoliadau'r Comisiwn Elusennau;**
- ii) **Dirprwyo awdurdod i Grŵp Llywio Harlech a swyddogion y Cyngor i ddechrau trafodaethau ynghylch gwerthu'r eiddo, a bod hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gynnwys cyfeiriad at weithwyr/crefftwyr lleol mewn unrhyw gytundeb a wneir;**
- iii) **Cael cyngor ar y ffordd orau o ymdrin â'r tir yng Nghaeau Astor, o ran y potensial i'w ddatblygu ar gyfer adeiladu ac agweddau amaethyddol, a diddordeb archaeolegol; hyn ar sail dealltwriaeth ar hyn o bryd y gallai hynny olygu ei gynnwys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn unrhyw gytundeb a wneir ynghylch y prif safle tir ac eiddo arall yn y dref, neu ei hepgor ohono;**
- iv) **Parhau â gwaith cynnal a chadw a mesurau diogelwch hanfodol i ddiogelu'r adeiladau, gan ddirprwyo'r awdurdod ar gyfer unrhyw wariant ychwanegol ar yr eitemau hynny i Grŵp Llywio Harlech a'r Pwyllgor Adnoddau – gan dderbyn o anfodd bod strwythurau'r adeiladau yn debygol o ddirywio ymhellach;**
- v) **Cwblhau'r trafodaethau ynghylch terfynu'r brydles â Theatr Ardudwy yn gynnwys cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gyda'r ffiniau bras fel y'u hamlinellir yn y cofnod uchod a chofnodion cyfarfodydd blaenorol y Cyngor;**
- vi) **Bod Grŵp Llywio Harlech a'r Pwyllgor Adnoddau, yn ystod yr wythnosau nesaf, yn monitro ac yn adrodd yn ôl ar gynnydd gyda'i gilydd, ac yn cyhoeddi diweddariadau i holl aelodau'r Cyngor wrth i bethau ddatblygu. Byddai angen i unrhyw gynnydd terfynol y maen nhw a swyddogion y Cyngor yn argymhell ei dderbyn gael ei gyflwyno i gyfarfod llawn o'r Cyngor.**

#### **At hynny, cytunodd y Cyngor ar y canlynol yn ymwneud yn benodol â'r llyfrgell a'i chynnwys:**

- i) **Bwrw ymlaen â'r cynigion a wnaed gan Lyfrgellydd Cenedlaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys ymrwymiad o £50,000 o arian prosiect gan Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales o ffynhonnell gyllid briodol;**
- ii) **Bod rhannau perthnasol o'r llyfrgell yn cael eu hadleoli yn enw Tudor Gwesyn Bowen-Jones yn un neu fwy o gyfleusterau Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales, yng nghyffiniau Harlech ac mewn mannau eraill, mewn modd oedd yn parhau i gyflawni telerau ei ewyllys a'i gymynrodd.**

O ran materion sefydliadol eraill, dywedodd Kathryn Robson fod y cynigion ynghylch addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gan Lywodraeth Cymru yn destun ymgynghoriad technegol ar hyn o bryd a bod cydweithwyr yn paratoi drafft i gael sylwadau'r Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu yn benodol. Byddai hyn yn ategu'r ymateb cyfunol gan Golegau Cymru. Roedd yr ofn yn parhau bod addysg oedolion yn y gymuned yn rhan rhy fach o'r darlun ehangach i gael llawer o sylw yn yr ymgynghoriad. Roedd Llywodraeth Cymru wedi agor nifer o ffynonellau cyllid newydd, penodol – y Gronfa Datblygu Sgiliau, y Gronfa Addysg Uwch a Phellach, a chontractau cysylltiedig â gwaith Cymru'n Gweithio trwy bartneriaethau sgiliau: roedd y cyfnodau ymgeisio am y rhain yn fyr ac roeddem yn cydweithio gyda phartneriaid arnynt. Hefyd, roedd datblygiadau newydd gyda siopau'r Co-operative Group ynghylch hyfforddi'u staff. Pan ofynnwyd p'un a allai newid diweddar ac amgyffredion o helynt o fewn Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales gyfrif yn ein herbyn wrth baratoi ceisiadau o'r fath a'u llwyddiant tebygol, yr ateb oedd mai dyma, o bosibl, oedd barn rhai awdurdodau unedol partner. Gorffennodd Kathryn Robson trwy grybwyll ein llwyddiant yng Ngwobrau Inspire!, i'w cyflwyno ar noson 6 Mehefin yng Nghaerdydd o dan nawdd y Sefydliad Dysgu a Gwaith, lle byddai ein gwaith yn y gymuned gyda Chlwb Pêl-droed y Rhyl yn cael ei wobrwyo; roedd hi'n gobeithio y byddai rhai aelodau'r Cyngor yn bresennol.

## **9. Diweddariad ar Staffio, Mai 2018**

Siaradodd Cath Hicks ynghylch y papur a oedd yn amlinellu'r sefyllfa ar hyn o bryd o ran penodiadau diweddar i swyddi uwch, gan gynnwys penodi Michelle Kerswell i swydd Rheolwr y Cwricwlwm a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Oherwydd bod Jayne Ireland wedi trosglwyddo'n fewnol i swydd Rheolwr Rhanbarthol y De-ddwyrain a Chanol y De, roedd tair swydd wag yn cael eu hysbysebu'n fewnol i ddechrau, yn ddiweddarach yn yr wythnos – Rheolwr Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru; Rheolwr Rhanbarthol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru; a Rheolwr Ansawdd.

Mewn trafodaeth ar welliannau i forâl yn dilyn ad-drefnu'r staff yn 2017, cadarnhaodd Jan Tiley fod camau ymlaen wedi'u cymryd o safbwynt yr undeb llafur. Mewn ateb i gwestiwn, dywedwyd bod y Rheolwr Cyflwyno Cenedlaethol yn parhau'n absennol o'r gwaith ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth iechyd galwedigaethol.

## **10. Y Gofrestr Risg - Mai 2018**

Roedd y Cadeirydd yn ystyried tybed a oedd gormod o risgiau, sef 18 ohonynt, bellach wedi'u cynnwys yn y Gofrestr. Dywedodd Chris Franks, sef Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, bod y Gofrestr yn adlewyrchiad teg o farn y Pwyllgor hwnnw am ein sefyllfa: yn wir, roedd cynnydd diweddar yn nifer y risgiau a enwyd wedi bod ar gais y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio. Awgrymwyd y gellid gwneud rhywfaint o waith i gyfuno'r risgiau, ac y gellid ystyried hepgor rhai o'r 7 risg, neu bob un ohonynt, a oedd wedi'u categorio'n risgiau gwyrdd (net isel) ar y Gofrestr, yn dilyn y rheolaethau lliniarol.

## **11. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018**

Gwnaed dau bwynt yn gysylltiedig â'r cofnodion hyn. Byddai Michelle Kerswell yn ei swydd newydd yn rhoi blaenoriaeth i swydd wag Tiwtor Cyflwyno'r Iaith Gymraeg (cofnod 2); ac o ran gwerthuso swyddi (cofnod 3), roedd yn debygol y byddai rhywfaint o ailddiffinio'r ffiniau rhwng swyddi, i adlewyrchu'r strwythur terfynol ar ôl ad-drefnu'r staff.

## 12. Cyfrifon rheoli ar gyfer y 9 mis hyd at ddiwedd Ebrill 2018

Nododd y Cyngor y cyfrifon a'r sefyllfa ariannol dri chwarter y ffordd drwy'r flwyddyn ariannol. Cydnabuwyd y byddai costau pellach yn codi yn gysylltiedig â safle Harlech uwchlaw'r symiau yn y gyllideb yn ystod y misoedd nesaf (ar ddiogelwch a materion strwythurol, ffioedd cyfreithiol a ffioedd tirlfesur).

## 13. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 23 Mawrth 2018

O ran cofnod 8 ac effaith y Credyd Cynhwysol, dywedodd Sonia Reynolds ei bod hi'n ymwybodol o'r problemau a grëwyd yn ei hardal yn sgil ei gyflwyno. Dywedodd Mark Baines fod penderfyniad wedi'i wneud, mewn ymateb i anawsterau o'r fath, i ddileu rhwystrau rhag dysgu gyda ni i bawb oedd yn derbyn y Credyd Cynhwysol yn y flwyddyn academaidd nesaf – h.y. byddai hawl gan y rhai oedd yn derbyn y Credyd Cynhwysol astudio am ddim.

## 14. Adborth ar y cyfarfod a hunanasesiad o berfformiad

Gan nad oedd sylwadau gan aelodau'r Cyngor, dywedodd Jan Tiley mai ei hargraff hi, fel rhywun a oedd yn arsylwi am y tro cyntaf, oedd bod y fformat yn un agored, iach, gyda phob unigolyn yn cael cyfle i fynegi ei farn.

## 15. Dyddiad wedi'i gadarnhau ar gyfer y dyddiadur

Dydd Gwener 13 Gorffennaf: Plas Tan y Bwlch, Maentwrog (Diwrnod Cynllunio Strategol a chyfarfod o'r Cyngor)

### PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Gweithred y cytunwyd arni	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 4	Materion gweithdrefnol yn ymwneud ag aelodaeth y Cyngor, y Llywyddiaeth a chyfarfodydd y Cyngor	Byddai'r Clerc yn edrych eto ar gyfnodau aelodau'r Cyngor o safbwynt cyfansoddiadol.	ST	Medi 2018
		Cytunwyd y dylid paratoi cylch gwaith/cynllun gwaith a swydd-ddisgrifiad ysgrifenedig ar gyfer rôl y Llywydd. Dylid codi'r mater gyda'n haelodau yn ehangach, gan ofyn iddynt gynnig enwau, a dylai'r swyddogion a'r Clerc gyflwyno cynigion manylach ynghylch y mater i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.	ST / JG / TS / SR  CH / Jonathan Goddard	Gorffennaf 2018  Gorffennaf 2018
		Dylid cynnal 6 chyfarfod Cyngor yn 2018-19, gyda phatrwm o	ST / JG	Gorffennaf 2018

		gyfarfodydd bob dau fis.		
Cofnod 8	Adroddiad Cryno'r Prif Weithredwr ar gyfer mis Mai 2018: Safle Harlech	<p>Dylid penodi syrfêwr i ddechrau prosesau cyn gwaredu'r safleoedd yn Harlech a chael prisiadau, yn unol â rheoliadau'r Comisiwn Elusennau.</p> <p>Dirprwyo awdurdod i Grŵp Llywio Harlech a swyddogion y Cyngor i ddechrau trafodaethau ynghylch gwerthu'r eiddo, a hyn i gynnwys y posibilrwydd o gynnwys cyfeiriad at weithwyr/crefftwyr lleol mewn unrhyw gytundeb a wneir.</p> <p>Cael cyngor ar y ffordd orau o ymdrin â'r tir yng Nghaeau Astor, o ran y potensial i'w ddatblygu ar gyfer adeiladu ac agweddau amaethyddol, a diddordeb archaeolegol; hyn ar sail dealltwriaeth ar hyn o bryd y gallai hynny olygu ei gynnwys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn unrhyw gytundeb a wneir ynghylch y prif safle tir ac eiddo arall yn y dref, neu ei hepgor ohono.</p> <p>Parhau â gwaith cynnal a chadw a mesurau diogelwch hanfodol i ddiogelu adeiladau Harlech, gan ddirprwyo'r awdurdod ar gyfer unrhyw wariant ychwanegol ar yr eitemau hynny i Grŵp Llywio Harlech a'r Pwyllgor Adnoddau.</p> <p>Cwblhau'r trafodaethau ynghylch terfynu'r brydles â Theatr Ardudwy yn gynnar cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gyda'r ffiniau bras fel y'u hamlinellir yn y cofnod uchod a chofnodion cyfarfodydd blaenorol y Cyngor.</p> <p>Bod Grŵp Llywio Harlech a'r Pwyllgor Adnoddau, yn ystod yr wythnosau nesaf, yn monitro ac yn adrodd yn ôl ar gynnydd gyda'i gilydd, ac yn cyhoeddi diweddariadau i holl aelodau'r Cyngor wrth i bethau ddatblygu.</p>	Yn amrywiol ynghylch Harlech: KR / MB / Grŵp Llywio Harlech / JG / TS / SR / Pwyllgor Adnoddau	<p>Mai 2018</p> <p>Mai 2018</p> <p>Mai 2018</p> <p>Mai 2018</p> <p>Mehefin 2018</p> <p>Mehefin 2018</p>

		<p>Byddai angen i unrhyw gynnig terfynol y maen nhw a swyddogion y Cyngor yn argymhell ei dderbyn gael ei gyflwyno i gyfarfod llawn o'r Cyngor cyn gweithredu arno.</p> <p>Bwrw ymlaen â'r cynigion a wnaed gan Lyfrgellydd Cenedlaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys ymrwymiad o £50,000 o arian prosiect gan Addysg Oedolion Cymru   Adult Learning Wales o ffynhonnell gyllid briodol.</p> <p>Bod rhannau perthnasol o'r llyfrgell yn cael eu hadleoli yn enw Tudor Gwesyn Bowen-Jones yn un neu fwy o gyfleusterau Addysg Oedolion Cymru   Adult Learning Wales, yng nghyffiniau Harlech ac mewn mannau eraill, mewn modd oedd yn parhau i gyflawni telerau ei ewyllys a'i gymynrodd.</p>		<p>Mehefin 2018</p> <p>Mehefin 2018</p>
--	--	--	--	---